Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Pontrhydfendigaid

**Pontrhydfendigaid
Ystrad Meurig
Ceredigion
SY25 6BL**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Pontrhydfendigaid

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Pontrhydfendigaid |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ceredigion |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 71 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 61 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | * |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 17.9% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 26.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 26.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/01/2006 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/02/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolydiad | 02/05/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad. Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Pontrhydfendigaid yn ysgol hyfryd sydd ag ethos hapus, gofalgar a chroesawgar ble mae lles bob un disgybl yn flaenoriaeth glir. Mae’r disgyblion yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at yr awyrgylch braf, weithgar sy’n nodweddiadol o’r ysgol ac yn ymfalchïo yn eu hysgol a’u cymuned. Mae eu hymddygiad yn dda ac maent yn ymdrin ag eraill gyda chwrteisi a pharch naturiol. Mae ethos diogelu cadarn yn yr ysgol ac, o ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo’n ddiogel wrth eu gwaith a’u chwarae ac yn mwynhau eu hamser yn yr ysgol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd, mathemateg a digidol o’u mannau cychwyn. Er hyn, nid oes bob tro ddigon o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd yn llawn ar draws y cwricwlwm.

Mae’r athrawon yn cydweithio’n gynhyrchiol wrth ddarparu cwricwlwm sy’n cynnig ystod eang o brofiadau dysgu cyffrous a diddorol ac sy’n adlewyrchu cyd-destun lleol yr ysgol yn llawn. O ganlyniad, mae’r disgyblion yn cael eu hysbrydoli ac mae eu hagweddau tuag at eu dysgu yn gadarn dros ben. Mae gan yr athrawon berthynas weithio arbennig gyda’r disgyblion sydd yn llawn gofal a pharch. Mae ganddynt wybodaeth bynciol gadarn, maent yn sicrhau cyflymder addas i’r gweithgareddau dysgu ac yn darparu ardaloedd a phrofiadau dysgu sy’n ysgogol ac yn meithrin chwilfrydedd naturiol y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw adborth gan staff bob tro’n adnabod y camau dysgu nesaf ar gyfer y disgyblion yn effeithiol. Mae’r cynorthwywyr yn hybu cynnydd y disgyblion yn fedrus drwy gynnig profiadau dysgu a rhaglenni cefnogi pwrpasol.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a chadarn ar gyfer yr ysgol. Mae’r weledigaeth hon yn canolbwyntio ar sicrhau lles y disgyblion a darparu’r profiadau dysgu gorau posibl iddynt. Mae hi’n rhannu ei gweledigaeth yn effeithiol gyda phawb yng nghymuned yr ysgol. Mae arweinwyr eraill yn yr ysgol yn darparu cefnogaeth gadarn i’r pennaeth ac, ar y cyfan, mae ganddynt ddealltwriaeth gywir o gryfderau’r ysgol ynghyd â’r meysydd sydd angen eu gwella. Mae’r llywodraethwyr yn eiriolwyr cadarn dros yr ysgol ac yn dangos ymwybyddiaeth dda o weithgareddau’r ysgol. Maent yn cefnogi arweinwyr a staff yn bwrpasol.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod adborth gan staff yn adnabod y camau nesaf yn nysgu’r disgyblion yn effeithiol

A2 Gwella cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhifedd yn llawn yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a’r rhai sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd cadarn o’u mannau cychwyn.

Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus, yn gwrando'n dda ar ei gilydd ac oedolion ac yn ymateb yn frwd i'w gwaith. O oedran cynnar, mae medrau cyfathrebu Cymraeg llawer o’r disgyblion ieuengaf yn datblygu’n effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn siarad yn aeddfed gydag ystod naturiol o eirfa mewn amrediad eang o gyd-destunau. Maent yn ymateb yn dda i eraill wrth drafod ac yn adeiladu ar syniadau ei gilydd. Er enghraifft, mae’r disgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio ystod arbennig o eirfa yn ymwneud â thema'r ysgol wrth siarad am eu gwaith.

Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu’n dda o oedran cynnar. Mae rhan fwyaf o’r disgyblion ieuengaf yn adnabod llythrennau unigol a geiriau syml sy’n gyfarwydd iddynt. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn trin a thrafod llyfrau a’u cynnwys yn hyderus. Mae’r disgyblion hŷn yn datblygu eu medrau darllen yn fedrus wrth ymchwilio i feysydd penodol. Erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol mae llawer yn darllen yn glir a gyda mynegiant da.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn briodol wrth iddynt fagu hyder yn eu gwaith. Mae llawer o ddisgyblion y dosbarth derbyn yn dechrau cofnodi eu syniadau drwy wneud marciau, ffurfio llythrennau darllenadwy ac ysgrifennu geiriau syml. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ysgrifennu mewn ystod o wahanol ffurfiau, yn dewis geirfa yn ofalus ac yn defnyddio prif lythrennau ac atalnod llawn yn gywir, ar y cyfan, er enghraifft drwy gofnodi ffeithiau hanesyddol am Santes Dwynwen a Mari Jones. Wrth i'w medrau ddatblygu, mae mwyafrif y disgyblion yn sillafu’n gywir, ar y cyfan, yn defnyddio ansoddeiriau diddorol, ac yn atalnodi’n briodol. Fodd bynnag, nid yw llawer o’r disgyblion hŷn yn defnyddio uwch fedrau atalnodi yn gyson yn eu gwaith. Ar draws yr ysgol, mae’r disgyblion yn defnyddio eu medrau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm at wahanol ddibenion yn effeithiol.

Mae medrau mathemateg y rhan fwyaf o’r disgyblion yn datblygu’n gadarn. Mae’r disgyblion ieuengaf yn dechrau adnabod rhifau ac yn defnyddio'u medrau rhifedd mewn cyd-destunau gwahanol, er enghraifft drwy gyfrif a didoli trychfilod. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn datblygu ystod dda o fedrau mathemateg ac yn gwneud cynnydd cadarn, er enghraifft drwy gyfnewid rhwng unedau mesur a thrwy bwyso cynhwysion er mwyn gwneud cawl. Wrth i ddisgyblion symud drwy’r ysgol, maent yn

adeiladu ar eu medrau yn fuddiol; er enghraifft, mae llawer ym Mlwyddyn 3 a 4 yn defnyddio eu medrau rhif wrth luosi a rhannu gyda 10 a 100. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau rhif i adnabod a chyfrifo onglau amrywiol. Er hynny, nid oes digon o gyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd yn llawn ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn bwrpasol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. O oedran cynnar, maent yn dechrau defnyddio'r medrau hyn mewn ffordd adeiladol mewn ystod gyfoethog o brofiadau dysgu ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio pecyn arlunio i greu diagram o gylch bywyd y pili pala yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn defnyddio eu medrau digidol yn dda i gefnogi ymchwil annibynnol, er enghraifft drwy greu gwefan gynhwysfawr yn dilyn eu taith i gopa Pumlumon.

Mae bron bob disgybl yn datblygu eu medrau corfforol yn dda ar draws yr ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio eu medrau'n effeithiol drwy gymysgu sment i greu wal yn yr ardal adeiladu. Maent yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau sy'n hybu eu hiechyd a'u lles yn effeithiol, er enghraifft trwy ddefnyddio'r offer chwarae pwrpasol yn ystod amser egwyl a thrwy wersi nofio rheolaidd i bob disgybl.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn elwa o gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau creadigol yn barhaus. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn creu, dadansoddi a dawnsio i gerddoriaeth y samba yn frwdfrydig. Mae holl ddisgyblion yr ysgol wedi cydweithio'n fwriadus i greu gwisgoedd, propiau a thrwy berfformio sioe 'Y Llew Frenin'.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae Ysgol Pontrhydfendigaid yn canolbwyntio'n amlwg ar sicrhau'r safonau lles gorau posibl ar gyfer pob disgybl. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn teimlo'n hapus yn yr ysgol ac yn ymfalchïo yn yr amgylchedd gofalgar a chynhwysol sy'n nodwedd gref o'r ysgol. Mae'r disgyblion yn teimlo'n rhydd rhag unrhyw fwlio ac maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae gan y disgyblion ddealltwriaeth dda o sut i gadw'n ddiogel wrth weithio ar-lein. Er enghraifft, nid ydynt yn rhannu eu cyfrinair gydag eraill ac mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o strategaethau addas i'w defnyddio petai ddieithryn yn cysylltu â nhw dros y we.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrtais, yn groesawgar ac yn mwynhau rhannu eu profiadau ag ymwelwyr. Maent yn dangos parch naturiol a chanmoladwy tuag at oedolion a'u cyfoedion ac yn sgwrsio'n aeddfed a hwyliog gyda'i gilydd. Maent yn gwrando'n astud ar eu cyfoedion ac yn parchu eu cyfraniadau, er enghraifft wrth i'r disgyblion ieuengaf ddethol a dewis pa eiriau i'w cynnwys yn eu gwaith ysgrifenedig.

Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion ddealltwriaeth dda o ddiben rheolau, gwobrau a chosbau yn yr ysgol, er enghraifft wrth gasglu sticeri sy'n hybu darllen neu rannu tocynnau iaith i'w hannog i siarad Cymraeg. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn gyson dda wrth symud o amgylch yr ysgol, mewn gwasanaethau ysgol gyfan, yn y gwersi ac ar y buarth.

Mae bron pob un ohonynt yn dangos diddordeb yn eu gwaith. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn gyffrous wrth chwilio am drychfilod ac wrth adeiladu cartref pwrpasol i'r moch coed. Mae'r disgyblion hynaf yn dangos brwdfrydedd heintus wrth gyflwyno cerddoriaeth Gymraeg ac ambell hanes difyr yn ystod amser egwyl ar eu gorsaf radio 'Radio Bontastig'.

Wrth gyflawni tasgau'n annibynnol o fewn yr ardaloedd dysgu, mae bron pob un o'r disgyblion ieuengaf yn dangos hunanreolaeth a hunangymhelliant pwrpasol. Er enghraifft, maent yn defnyddio toes i efelychu siâp anifail o'r goedwig law yn ymroddgar, ac yn ofalus iawn eu bod yn adeiladu eu wal frics yn gadarn a syth. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymdawelu'n gyflym er mwyn cyflawni eu gweithgareddau o fewn y dosbarth ac yn canolbwyntio'n llwyddiannus i gwblhau eu tasgau. Fodd bynnag, nid yw disgyblion bob tro'n ymwybodol o'r hyn mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith, yn bennaf gan nad yw athrawon bob amser yn darparu digon o gyfleoedd iddynt ymateb i adborth a gwella agweddau pwysig o'u gwaith.

Mae bron bob un disgybl yn teimlo bod staff yn gwrando ar eu barnau ac yn gweithredu arnynt, gan amlaf. Er enghraifft, mae Senedd yr ysgol yn cynnig bod yr ysgol yn prynu ieir i sefydlu busnes bach ar gyfer gwerthu wyau ac yn awgrymu ymsefydlu caban lles i ddisgyblion Blwyddyn 6. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o bwysigrwydd gofalu am anifeiliaid ac mae'r disgyblion hynaf yn manteisio ar gyfleoedd i ymlacio trwy chwarae tenis bwrdd neu sgwrsio'n gymdeithasol â'u cyfoedion.

Ar draws yr ysgol, mae bron bob disgybl yn datblygu gwydnwch a dealltwriaeth emosiynol gadarn trwy gyfrwng sesiynau lles pwrpasol. Mae bron pob un ohonynt yn datblygu'n ddinasyddion moesegol gydag ymwybyddiaeth o gydraddoldeb a thegwch, er enghraifft trwy astudio hanesion a'r heriau a oroeswyd gan Betty Campbell a Martin Luther King. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu hyder a medrau gweithio'n annibynnol trwy arwain gwersi, er enghraifft wrth gyflwyno gwybodaeth i'w cyfoedion ynghylch taith Charles Darwin i'r Amason.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgymryd â rolau arweinyddiaeth a chyfrifoldebau yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn meithrin medrau arwain gwerthfawr wrth gefnogi'r staff gyda chyflwyno sesiynau chwaraeon i blant iau'r ysgol. Mae bron bob un disgybl yn teimlo bod yr ysgol yn eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau buddiol tu allan i oriau ysgol. O ganlyniad, mae oddeutu hanner y disgyblion hynaf yn mynychu clybiau fel yr Urdd a'r clwb chwaraeon sydd yn hybu eu llesiant meddyliol a chorfforol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd sicrhau diet cytbwys ac ymarfer corff rheolaidd.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r athrawon yn cydweithio'n gynhyrchiol wrth ddatblygu cwricwlwm diddorol, gydag ystod a dyfnder o brofiadau ystyrlon yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm cyfoethog sy'n adlewyrchu ei natur a'i chyd-destun lleol yn llwyddiannus. Mae'r themâu wedi eu cynllunio'n fwriadus er mwyn sicrhau bod sbardun cyffrous i'r dysgu, cwestiynau ymholi bwriadus a phwyslais ar weithgaredd fel diweddglo sy'n annog y disgyblion i gyfathrebu â chymuned yr ysgol. Enghraifft dda yw gwaith y disgyblion ieuengaf oddi fewn eu thema ar fara menyn a jam, ble bu iddynt gynhyrchu ac yna cynnal tê prynhawn i'r gymuned. Drwy enghreifftiau fel hyn,

mae athrawon yn darparu profiadau dysgu sy’n ysbrydoli disgyblion sy’n cael effaith gadarnhaol ar agweddau'r disgyblion at ddysgu.

Mae gan athrawon wybodaeth bynciol gadarn, ac maent yn weithgar wrth arbrofi a chynllunio gweithgareddau dysgu ysbrydoledig. Mae llawer o’u syniadau yn dechrau ymwreiddio yn eu dulliau addysgu a dysgu ac, ar y cyfan, mae athrawon yn datblygu’r disgyblion i fod yn ddysgwyr mentrus a chreadigol.

Mae’r ardaloedd dysgu, gan gynnwys yr ardaloedd y tu allan, yn ysgogol a deniadol ac yn cefnogi dysgu’r disgyblion a’r cwricwlwm ehangach yn bwrpasol. Er enghraifft, diweddglo gwaith y disgyblion ieuengaf ar y goedwig law drofannol oedd creu ardal debyg yn eu dosbarth. Mae’r ardaloedd hyn yn cefnogi’r disgyblion i fod yn chwilfrydig wrth chwarae a dysgu yn greadigol ac annibynnol.

Mae athrawon a chynorthwywyr yn cynnig llawer o weithgareddau dysgu er mwyn datblygu medrau addysg bersonol a chymdeithasol y disgyblion yn dda. Drwy ddarpariaeth fwriadus, a phrosiect cydweithio lles yr ysgolion lleol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth glir o faterion sy’n ymwneud â'u lles. Mae gan yr ysgol ethos cryf o hyrwyddo a chefnogi lles y disgyblion.

Yn gyffredinol, mae’r addysgu, y cwricwlwm a chynllunio’r athrawon yn sicrhau arlwy diddorol o brofiadau dysgu i’r disgyblion. Mae medrau disgyblion yn datblygu’n gadarn yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau ble gwnânt gynnydd da. Er hynny, nid yw athrawon bob tro’n darparu cyfleoedd bwriadus i’r disgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd yn llawn ar draws y meysydd dysgu.

Mae gan yr holl staff berthynas waith gofalgar a chynhyrchiol â disgyblion. Maent yn trin bob disgybl gyda charedigrwydd a pharch sydd yn creu amgylchedd cynhwysol a gofalgar drwy'r ysgol ble mae lles a datblygiad yn cael sylw bwriadus. Mae’r staff yn meithrin agweddau cadarnhaol at ddysgu ymysg disgyblion, gan greu ethos ble maent yn teimlo’n hyderus i ofyn cwestiynau ac i fynegi barn. Mae’r staff cyfan yn cydweithio’n effeithiol i feithrin agweddau cadarn o ddyfalbarhau a gwytnwch ymhob disgybl. Mae hyn yn caniatáu i ddisgyblion ddatblygu’n  ddysgwyr brwdfrydig ac uchelgeisiol.

Mae nodau’r rhan fwyaf o’r gwersi yn glir ac yn cael eu rhannu â’r disgyblion yn gyson. Mae staff yn defnyddio ystod o adnoddau diddorol i ennyn diddordeb a chwilfrydedd disgyblion, er enghraifft wrth greu cegin fwd gyda llysiau a pherlysiau neu drwy ddarparu sbardun gweledol i ddisgyblion ddisgrifio creadur y maent wedi ei greu trwy eu dychymyg. Yn yr arfer orau, mae’r athrawon yn datblygu’r gweithgareddau dysgu gyda chyflymder addas. Maent yn aml yn defnyddio technegau holi a chwestiynu treiddgar yn fedrus. Yn ogystal, mae’r cynorthwywyr dysgu yn defnyddio eu medrau i gyfrannu’n hynod effeithiol at ddatblygu dysgu’r disgyblion drwy annog a hybu’r dysgu’n fwriadus.

Mae athrawon a chynorthwywyr yn defnyddio canmoliaeth ac adborth llafar yn briodol er mwyn dathlu llwyddiannau’r disgyblion yn rheolaidd. Er hyn, ar draws yr ysgol, nid yw disgyblion bob tro’n cael cyfleoedd bwriadus i drafod eu cynnydd yn ystod gwersi nac ychwaith i wella eu gwaith yn dilyn adborth athrawon.

Mae gan yr ysgol drefniadau olrhain cynnydd cadarn sy'n cefnogi athrawon a chynorthwywyr i ddarparu rhaglenni effeithiol i grwpiau penodol o ddisgyblion, gan gynnwys cefnogaeth ar gyfer eu lles. Mae athrawon yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i rieni am gynnydd eu plant. Mae disgyblion yn rhan annatod o'r prosesau hyn drwy drafod eu gwaith â'u rhieni yn ystod y cyfarfodydd cynnydd a gynhelir.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar, groesawgar a chynhwysol sy'n hyrwyddo hapusrwydd, cwrteisi ac ymddygiad da ar gyfer pob disgybl. Mae perthynas waith annwyl a chyfeillgar rhwng staff a disgyblion a rhoddir pwyslais ar sicrhau bod pob disgybl yn teimlo'n rhan bwysig o'u hysgol ac yn cael mynediad cyfartal at brofiadau dysgu. O ganlyniad, mae agwedd bositif gan bron bob un disgybl at holl waith a bywyd yr ysgol.

Mae'r ysgol yn annog disgyblion i ymgymryd â rolau arwain yn gyson. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn chwarae rôl flaenllaw wrth ddewis geiriau allweddol i gynrychioli beth yw gwerthoedd yr ysgol. O ganlyniad, maent yn datblygu'n ddinasyddion cyfrifol sy'n gweithredu mewn modd sy'n adlewyrchu gwerthoedd yr ysgol yn llawn, er enghraifft trwy ddyfalbarhau tra'n cydweithio i werthu cynnyrch o'u menter busnes yn eu cymuned ac ymdrin â phawb â pharch. Mae cyfnodau cyd-addoli yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio ar werthoedd yr ysgol a thrafod teimladau a pherthnasoedd iach. Mae hyn, ynghyd â gwersi o fewn y dosbarthiadau, yn hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o foesau gwerthfawr i'w hymgorffori yn eu hymddygiad bob dydd.

Mae'r ysgol yn ganolbwynt ei chymuned ac yn manteisio'n llawn ar gyfleoedd i gynnal gweithgareddau yn y pentref a thu hwnt. Mae cyfleoedd cyfoethog dros ben i ddisgyblion gymryd rhan mewn perfformiadau a digwyddiadau yn lleol. Er enghraifft, maent yn cydgynllunio a pherfformio sioe gerdd 'Y Llew Frenin' gyda'u cyfoedion o'r ysgolion lleol. Mae'r profiadau hyn yn lled effeithiol wrth ddatblygu hunanhyder a medrau creadigol y rhan fwyaf o'r disgyblion yn ogystal â'u gallu i weithio fel aelodau gwerthfawr o dîm.

Mae'r ysgol wedi sefydlu gweithdrefnau effeithiol ar gyfer monitro ac olrhain lles a chynnydd disgyblion. O ganlyniad, mae gan y staff adnabyddiaeth drylwyr o anghenion bob disgybl. Maent yn gosod pwyslais ar adnabod a diwallu anghenion y disgyblion unigol yn fuan wedi iddynt gychwyn yn yr ysgol ac mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth fwriadus i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Er enghraifft, darperir rhaglenni cefnogi i ddisgyblion, lle bo'n briodol, ochr yn ochr â chwricwlwm amgen mewn ystafell amlsynhwyraidd bwrpasol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Mae athrawon yn cydweithio'n fwriadus â rhieni i lunio cynlluniau addysgu unigol i gefnogi datblygiad medrau disgyblion sy'n cefnogi'r disgyblion i wybod beth yw'r camau nesaf yn eu dysgu. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o bartneriaethau ag ysgolion eraill i gynnig cymorth effeithiol i ddisgyblion, er enghraifft trwy ddefnyddio'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) ar gyfer yr ysgolion lleol. Mae hyn yn galluogi'r ysgolion i rannu arbenigedd yn effeithiol a chynyddu'r capasiti arweinyddol o fewn yr ysgol.

Gwneir defnydd pwrpasol o farnau'r disgyblion er mwyn addasu'r ddarpariaeth ar gyfer gwella eu lles. Er enghraifft, mae gwersi lles effeithiol yn cael eu cynnig sy'n ymateb yn uniongyrchol i feysydd angen sydd wedi eu hamlygu gan y disgyblion trwy gwblhau holiaduron defnyddiol.

Mae disgyblion yn cael cyfleoedd pwrpasol i ddathlu eu treftadaeth a'u diwylliant Cymreig drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau fel Eisteddfod yr Urdd a chael mynd ar deithiau preswyl i Gaerdydd.

Mae'r ysgol yn darparu ystod dda o weithgareddau allgyrsiol ac ymweliadau addysgol buddiol. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn ymweld â Thŷ Pili-pala Cwm Rheidiol ac yn dyfnhau eu gwybodaeth ynghylch byd natur a'r creaduriaid sy'n byw mewn cynefinoedd lleol. Mae'r disgyblion hynaf yn dilyn taith gerdded at gopa Pen y Bannau, sy'n datblygu eu lles corfforol ac yn meithrin eu cariad tuag at harddwch naturiol eu hardal.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. Darperir ystod o gyfleoedd buddiol i ddatblygu ffitrwydd a medrau corfforol y disgyblion drwy'r clwb chwaraeon a chyfleoedd addas i gymryd rhan mewn cystadlaethau, er enghraifft pêl-rwyd a phêl-droed. Yn ogystal, mae'r ardaloedd chwarae awyr agored ar y buarth yn ddeniadol ac yn hybu'r disgyblion i ymgymryd â gweithgarwch corfforol yn ystod gwersi ac amser egwyl yn llwyddiannus.

Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer monitro ac olrhain presenoldeb disgyblion yn gadarn. Mae'r staff yn cadw cofnodion priodol o achosion o absenoldeb ac yn cysylltu â rhieni'n briodol i drafod unrhyw bryderon ynglŷn â phresenoldeb eu plant.

Mae gan y staff ymwybyddiaeth gadarn o brosesau diogelu. Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn gadarn a chynhwysfawr ac nid ydynt yn peri pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol yn effeithiol dros ben. Mae hi'n hyrwyddo ethos cynhwysol, hyfryd sy'n canolbwyntio ar les, hapusrwydd a'r profiadau dysgu gorau posibl i bob un disgybl. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymfalchïo yn eu hysgol a'u cymuned ac yn mwynhau eu hamser yn yr ysgol. Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel o'i hun ac eraill ac mae staff yn ymateb yn dda iddynt. Yn sgîl hyn, mae ymdeimlad cryf o bwrpas yn treiddio trwy pob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae'r pennaeth ac arweinwyr eraill yn hyrwyddo diwylliant diogelu yn llwyddiannus ac, o ganlyniad, mae bron bob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Mae arweinwyr yn cefnogi ac annog staff yn yr ysgol i gydweithio'n effeithiol wrth ddatblygu eu harfer a'u dulliau wrth gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Mae staff yn cydweithio i ddatblygu sbardun ar gyfer cychwyn uned o waith sy'n ennyn brwdfrydedd a diddordeb y disgyblion yn eu dysgu yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn gwylio animeiddiad adnabyddus er mwyn meithrin eu chwilfrydedd yn y coedwigoedd glaw a diwylliant a thraddodiadau Brasil. Mae'r cydweithio yn datblygu'n fwriadus trwy gyflwyno'r themâu ac yn arwain at

gynllunio digwyddiadau cyffrous fel diweddglo i'r uned, er enghraifft wrth gyflwyno perfformiad cyhoeddus 'Y Llew Frenin' yn llwyddiannus.

Mae arweinwyr wedi sefydlu gweithdrefnau pwrpasol ar gyfer gwerthuso a gwella ansawdd y ddarpariaeth. Maent yn defnyddio ystod dda o dystiolaeth uniongyrchol i adnabod cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu ymhellach. Mae arweinwyr yn dadansoddi canfyddiadau'r gweithgareddau monitro ansawdd i lunio cynlluniau gwella pwrpasol. Er enghraifft, maent yn craffu'n fanwl ar ddata holiaduron disgyblion ac, o ganlyniad, yn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi a gwella lles disgyblion trwy gyflwyno gwersi lles hynod effeithiol. Mae'r cynlluniau gwella yn rhoi sylw pwrpasol i flaenoriaethau cenedlaethol ac mae gan arweinwyr hanes o weithredu newidiadau a gwelliannau cyson. Er enghraifft, maent wedi sicrhau bod disgyblion wedi gwneud cynnydd cadarn yn datblygu eu medrau llafaredd Cymraeg yn ddiweddar. Er hynny, nid yw gweithgareddau monitro bob tro'n canolbwyntio'n ddigon manwl ar effaith y ddarpariaeth a'r addysgu ar gynnydd disgyblion.

Darperir cyfleoedd i staff gymryd rhan mewn ystod bwrpasol o weithgareddau dysgu proffesiynol sy'n cysylltu'n glir â chanfyddiadau hunanwerthuso'r ysgol a'i blaenoriaethau gwella. Mae'r cyfleoedd hyn yn cyd-fynd â thargedau rheoli perfformiad staff ac yn datblygu eu medrau yn effeithiol. Mae hyn, yn ei dro, yn gwella'r ddarpariaeth ac yn cefnogi'r disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau. Er enghraifft, mae staff yn ymweld â dosbarthiadau ei gilydd ac yn rhannu'r arferion mwyaf effeithiol trwy gynnal deialogau proffesiynol bwriadus.

Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi arweinwyr a staff yr ysgol yn fedrus. Maent yn derbyn gwybodaeth briodol gan arweinwyr am waith yr ysgol, ac yn mynd ati i gefnogi a herio'r ysgol am y safonau a'r ddarpariaeth. Trwy gwblhau ystod o weithgareddau monitro perthnasol, mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o gryfderau'r ysgol ynghyd â'r meysydd i'w gwella. Mae llywodraethwr yn sicrhau bod trefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach yn yr ysgol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau cadarn ar gyfer rheoli adnoddau. Maent yn monitro gwariant yn ofalus, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion. Mae'r arian grant yn cael ei ddefnyddio i gyllido staff sy'n cynnal rhaglenni cefnogi ar gyfer disgyblion o gefndiroedd llai breintiedig neu'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn cael mynediad cyfartal at brofiadau cyffrous, er enghraifft ymweliadau addysgol, ac mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Mae arweinwyr yn sicrhau bod gwariant yn cael effaith gadarnhaol ar amgylchedd yr ysgol, er enghraifft trwy ddatblygu ardaloedd dysgu tu allan ysgogol sy'n ennyn chwilfrydedd y disgyblion yn effeithiol.

Rhoddir pwyslais uchel ar ddatblygu partneriaethau effeithiol gyda rhieni a'r gymuned ehangach ac mae'r ysgol yn gwneud hyn yn dda. Er enghraifft, gyda chefnogaeth a chyngor gan rieni a phobl fusnes leol, mae'r ysgol yn cynnal ffair haf lwyddiannus ble mae disgyblion yn gwerthu cynnyrch y maent wedi eu gwneud fel rhan o brosiect i ddatblygu medrau menter.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 06/07/2023